**ADRODDIAD I'R CABINET**
{Gorffennaf 14, 2015)

**Aelod Cabinet: Mandy Williams Davies**

**Pwnc: Ardaloedd Gwella Busnes Bangor a Chaernarfon**

**Swyddog cyswllt: Rhys A Williams**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Cymeradwyo'r bwriad o gynnal pleidlais ymysg busnesau canol dinas Bangor a chanol tref Caernarfon ar y bwriad o sefydlu Ardal Gwella Busnes o fewn y ddwy ardal.

---

**Barn yr aelod lleol**

I'w gadarnhau

---

**Cyflwyniad**

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) yn bartneriaeth sydd yn cael ei arwain gan gymuned fusnes sydd yn cael ei sefydlu drwy broses bleidleisio ffurfiol er mwyn darparu gwasanaethau ychwanegol i fusnesau lleol. Mae AGB yn ardal benodol, ac oddi fewn i'w ffiniau bydd talwyr trethi annomestig yn talu ardoll ychwanegol i'r trethi busnes. Mae'r ardoll ychwanegol yma yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu prosiectau er budd busnesau'r ardal honno.

Derbyniodd Cyngor Gwynedd gymorth gan Lywodraeth Cymru (yn wreiddiol drwy raglen Adfywio Môn Menai) i ymchwilio'r cyfleoedd o sefydlu AGB yng nghanolfannau masnachol Bangor a Chaernarfon. Yn 2014, penodwyd ymgynghorwyr i wneud gwaith dichonoldeb gan weithio gyda grwpiau busnes i ddatblygu cynigion amlinellol.

Yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2014, trefnwyd ymgynghoriad gyda busnesau, ac o'r ymatebion a dderbyniwyd roedd 83% o fusnesau Caernarfon ynghyd a 77% o fusnesau Bangor wedi datgan eu bod yn gefnogol i'r bwriad ac y dylid cynnal pleidlais. Yn sgil y gefnogaeth gychwynnol yma, aethpwyd ati i sefydlu grwpiau llywio, trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth ac i ddatblygu pecynnau cynigion yn unol â gofynion y broses o sefydlu AGB.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae rheoliadau AGB yn nodi fod angen i awdurdodau lleol reoli'r broses bleidleisio. Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd :

- Mae'r cynigion i sefydlu AGB ym Mangor a Chaernarfon yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae'r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi sefydliad yr AGB er mwyn rhoi'r gallu iddynt wireddu'r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai'r AGB arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Bangor a Chaernarfon
- Byddai'r AGB yn gyfrwng i gydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

**Ystyriaethau perthnasol**

<u>Cynigion Ardal Gwella Busnes</u>
Fel rhan o'r broses AGB, mae'n ofynnol i baratoi cynigion ynghyd a chynllun busnes. Mae'n ofynnol i'r cynigion gynnwys gwybodaeth am wasanaethau sydd i'w darparu ynghyd a maint yr AGB arfaethedig. Dylai hefyd gynnwys maint yr ardoll a'r trefniadau ar gyfer ei gasglu.

Mae Cynigion AGB ar gyfer Bangor a Chaernarfon wedi eu cynnwys fel Atodiad 1 a 2.

Mae prif faterion y cynigion hyn wedi eu datblygu gan ddilyn tair prif thema sef:

***Dylanwadol ag Integredig*** – gan gynnwys penodi Cyd-gysylltwr Canol Tref ag ymyraethau i gefnogi a hybu busnesau

***Glan a Gwyrdd, Taclus a Diogel*** - gan gynnwys glanhau ychwanegol, gwybodaeth a dehongli, gwella blaen siopau a chreu amgylchedd diogel

***Hyrwyddo'n falch*** – gan gynnwys rhaglen ddigwyddiadau, sefydlu 'her ganol dref / ddinas' i hybu cyfleoedd mentro a marchnata

Rhagwelir y byddai'r AGB arfaethedig yn codi ardoll o 1.5% yn erbyn cyfradd trethi annomestig, gan eithrio eiddo sydd â gwerth trethiannol llai na £2,000. Amcangyfrifir y byddai'r AGB yn codi hyd at £127,000 y flwyddyn (sef £635,000 dros 5 mlynedd) ym Mangor; a £86,000 y flwyddyn (sef £430,000 dros 5 mlynedd) yng Nghaernarfon.

Mae'r cynigion arfaethedig wedi eu datblygu drwy gyfrwng grwpiau llywio cyn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes. Mae llythyrau cefnogaeth wedi eu derbyn gan Fforwm Busnes Bangor a Siambr Masnach Caernarfon.

Ar gychwyn mis Gorffennaf, mae gweithdai wedi eu trefnu ar gyfer busnesau fydd yn gyfle i arbenigwr AGB cenedlaethol rannu gwybodaeth a phrofiad o ddatblygu a chefnogi AGB mewn ardaloedd eraill. Hefyd, mae digwyddiadau gwybodaeth i'w cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion arfaethedig.

<u>Cytundebau Ymarferol a Gwaelodlin</u>
Fel rhan o'r broses AGB mae gofyn ar awdurdodau lleol i baratoi Cytundebau Ymarferol a Gwaelodlin. Lluniwyd cytundebau arfaethedig mewn cydweithrediad â'r Adrannau Cyllid, Rheoleiddio a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol ac wedi eu cynnwys fel Atodiad 3 a 4.

Pwrpas y Cytundeb Ymarferol yw gosod trefniadau cydweithio a rheolaeth ariannol rhwng y AGB a Chyngor Gwynedd wrth iddo gasglu ardoll a throsglwyddo talebion i'r endid newydd.

Mae'r Cytundeb Gwaelodlin yn amlygu gwasanaethau a gweithgareddau safonol presennol Cyngor Gwynedd o fewn ardaloedd arfaethedig y AGB. Mae'r cytundeb yn gosod trefniadau ble y gallai'r AGB gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i sefydlu gweithgareddau neu wasanaethau ychwanegol.

<u>Oblygiadau i Gyngor Gwynedd</u>

Rhagwelir y byddai oblygiadau canlynol i'r Cyngor fel yr awdurdod lleol perthnasol :

**Cynnal y bleidlais** - Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal pleidlais o'r gymuned fusnes o fewn yr ardal ddynodedig i brofi cefnogaeth i sefydlu'r AGB yng Nghaernarfon a Bangor. Bwriedir i'r bleidlais cael ei gynnal gan Wasanaethau Etholiadol Cyngor Gwynedd gyda £1100 wedi ei neilltuo i ddiwallu'r costau gan y prosiect datblygu'r AGB.

**Cefnogaeth i sefydlu** - Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r grwpiau llywio i sefydlu cwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn gosod trefniadau ychwanegol i sefydlu systemau newydd i gasglu'r ardoll gyda chost oddeutu £15,000 i'w dalu gan y AGB dros y cyfnod.

**Cytundebau cyfreithiol** - Gydag AGB wedi eu sefydlu, bydd y cytundebau arfaethedig atodol yn gosod trefniadau iddynt gydweithio gyda Chyngor Gwynedd

**Casglu'r ardoll** – Os bydd AGB yn cael ei sefydlu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gasglu'r ardoll ar ran yr endid newydd. Dylai cadw mewn cof bod disgwyl hefyd i'r AGB talu ffi i Cyngor Gwynedd am gasglu'r ardoll.

Costau casglu'r ardoll Cyngor Gwynedd bydd £24.48 fesul uned busnes gyda chyfanswm Bangor yn £5,749 ag £5,923 yng Nghaernarfon. Mae'r costau casglu wedi i'w gynnwys o fewn y cynlluniau busnes perthnasol.

**Fel trethdalwr** –. Pe sefydlir AGB, byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu'r ardoll ychwanegol am eiddo annomestig ym mherchnogaeth y Cyngor o fewn finiau'r AGB e.e. ar sail ardoll o 1.5%, rhagwelir y byddai cost ychwanegol o tua £16,411 y flwyddyn (£3,346 ym Mangor a £13,065 yng Nghaernarfon).

Pe byddai pleidlais yn cael ei threfnu, byddai cyfle i'r Cyngor bleidleisio fel trethdalwr trethi annomestig eiddo o fewn ffiniau'r AGB arfaethedig. Argymhellir fod penderfyniad(au) o safbwynt pleidleisio yn ychwanegol ac ar wahân i argymhelliad yr adroddiad yma.

**Camau nesaf ac amserlen**

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, bwriedir cyhoeddi'r bleidlais erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Unwaith byddai'r rhybudd wedi ei gyflwyno, byddai hyn yn caniatáu rhydau'r papurau pleidleisio ynghyd a manylion y cynigion arfaethedig (gyda nodiadau esboniadol) yn ystod mis Awst.

Yn unol â'r amserlen uchod, byddai dyddiad cau pleidlais bost erbyn 24ain o Fedi, a'r canlyniad ar 25ain o Fedi.

Pe byddai pleidlais o blaid sefydlu AGM, bwriedir bwrw ymlaen i sefydlu trefniadau llywodraethu perthnasol (gan gynnwys sefydlu cwmni/au) er mwyn eu lansio a chychwyn casglu'r ardoll gyntaf ym mis Ebrill 2016.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n amlwg bod y cynnig hwn wedi bod yn destun trafod ac ymgynghori helaeth dros y misoedd diwethaf. Yn amlwg hefyd, mae goblygiadau i'r Cyngor yn ei sgil ond y casgliad yw bod y budd posib a ddaw ohono yn gorbwyso'r goblygiadau hynny

**Y Swyddog Monitro:**

Mae cyfundrefn statudol fanwl ynglyn a gweithredu'r cais am bleidlais. Golygai hyn hefyd fod disgreswin cyfyngedig ynglyn a phenderfynu ar gynnal pleidlais a'i pheidio a gweithredu'r canlyniadau. Byddaf yn rhoi arweiniad pellach i'r Cabinet yn y cyfarfod ar hyn. Nodi'r hefyd fod gan y Cyngor hawl pleidleisio

oherwydd ei statws fel treth dalwr annomestig ym Mangor a Chaernarfon a bydd angen ystyried dirprwyo'r  hawl priodol i weithredu hyn fel rhan o'r penderfyniad.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fel nodir ar 4ydd dudalen yr adroddiad, dan "Oblygiadau i Gyngor Gwynedd fel trethdalwr", os bydd canlyniad y bleidlais o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes, bydd y Cyngor ei hun yn gyfrifol am dalu'r ardoll ychwanegol, ar gost oddeutu £3,346 ym Mangor a £13,065 yng Nghaernarfon.  Mae hyn hefyd yn golygu y bydd gan y Cyngor bleidleisiau, fel trethdalwr, a rhaid i'r Cabinet ddatrys pwy caiff fwrw'r pleidleisiau hynny.

Ymhellach, pe byddai'r bleidlais yn mynd o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes ym Mangor a/neu Caernarfon, bydd gan Uned Trethi'r Adran Cyllid waith ychwanegol yn casglu'r ardoll.  Mae swyddogion Cyllid wedi trafod hyn gyda'r Adran Economi a Chymuned, a cadarnhaf rydym yn fodlon gyda chynnwys y cytundebau.  Credaf fod y costau gweinyddol a nodir yn yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r buddsoddiad a'r gwaith ychwanegol fydd ynghlwm â gweinyddu'r Ardal Gwella Busnes.

---

**Atodiadau**

1.Cynnig Ardal Gwella Busnes Bangor
2.Cynnig Ardal Gwella Busnes Caernarfon
3.Cytundebau Ymarferol drafft (Bangor a Chaernarfon)
4.Cytundebau Gwaelodlin drafft (Bangor a Chaernarfon)